CEWC CYMRU

COUNCIL FOR EDUCATION IN WORLD CITIZENSHIP - CYMRU

NEWSLETTER 06

SUMMER

Active citizenship for Wales and the world

RECORD TURNOUT FOR DEBATE WALES 2006

A record 36 countries have registered for the 2006 World Schools Debating Championships, taking place in Wales this July. Among them are three teams which have not previously competed: Botswana, Lesotho and the newly-independent Montenegro.

Martin Pollard, CEWC-Cymru's Education Officer and Convenor of the tournament, said: "We are delighted to be welcoming over 300 international debaters, coaches and judges to Wales this summer. They'll be tackling big issues such as nuclear power, terrorism and democracy, and thousands of Welsh school pupils will get the chance to watch the debates and get involved." CEWC-Cymru will also be distributing free teaching materials on debating to all schools and colleges in Wales.

The tournament is organised by our parent body, the Welsh Centre for International Affairs, with support from the Wales Debating Federation. Major sponsorship is being provided by the Welsh Assembly Government, Cardiff County Council, Torfaen County Borough Council, Newport City Council, Carmarthenshire County Council, BBC Wales and LexisNexis Butterworths.

Wales's own team, sponsored by the travel specialists Schools Into Europe, is pictured above. From left to right: Joseph Edwards (Caerleon Comprehensive School), Katharine Halls (King Henry VIII School, Abergavenny), Ffion Rolph (Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Cardiff), Bethan Greaves (Builth Wells High School), Geraint Denison (Whitchurch High School, Cardiff).

If you would like to attend the Grand Final on 13 July at City Hall, Cardiff, e-mail **convenor@wales2006.com**.

NEXT STOP: KOREA

Julian Hodge Bank

The 2007 World Championships take place in Seoul, South Korea – and students in Wales have the chance to be there, by entering the **2006 Wales Schools Debating Championships**. Sponsored by Julian Hodge Bank, this is the only national debating competition in Wales. Regional rounds take place in October, with the Final on 24 November at the Temple of Peace, Cardiff.

All schools are being sent full details of the Championships: to make sure you personally receive them, complete the form overleaf.

www.cewc-cymru.org.uk

A FOND FAREWELL TO SHEILA

Many of our colleagues will have met or spoken to Sheila Davies over the years. Sheila began work as Secretarial Assistant for CEWC-Cymru and the Welsh Centre for International Affairs in 1991. She was often the first point of contact at the Temple of Peace, whether by phone or face to face. Both publicly and behind the scenes, she provided vital support for CEWC-Cymru's many conferences and competitions, managed our membership system, and ensured that schools and colleges were provided with up-to-date information.

Sheila was also a highly valued member of staff, who combined organisational proficiency with a friendly face and an aura of calm. She will be greatly missed, and we wish her the best for the future.

Sheila's replacement is Jihane Habachi, from Beaucourt in Franche-Comté, France. Jihane previously worked with us as a volunteer with the European Union's Leonardo placement scheme. She can be contacted at **jihanehabachi@wcia.org.uk**.

UN-PUTDOWNABLE

If you would like your students to learn about the work of the United Nations, help is at hand.

CEWC-Cymru's sister organisation, UNA Wales, has published an updated *Passport to the United Nations*, the pocket-sized bilingual booklet covering many aspects of the UN's work. The *Passport*, which can be used by teachers and by students aged 14 and over, normally costs £1. However, we have two special offer rates for teachers: 30 copies for £20, or 100 copies for £50.

For students wishing to get practical experience of the workings of the UN, CEWC-Cymru organises a number of **Model United Nations** conferences each year. These involve 50 to 100 students representing a range of the UN's member countries, and discussing key issues such as global poverty and the fight against HIV/AIDS. The next two events take place on 3 November (County Hall, Carmarthen) and 9 November (County Hall, Swansea). We are also able to arrange smaller scale Model UN events for CEWC-Cymru member schools, using the UNA Wales resource *U What*?!.

Complete the form on the next page if you wish to take advantage of these opportunities

NEW TRAINING FOR DEEPER THINKING

With critical thinking skills becoming an increasing concern for teachers, CEWC-Cymru is pleased to offer accredited training courses in **Philosophy for Children (P4C)**. The P4C method encourages pupils to engage in open-ended discussion about social, ethical and otherwise philosophical questions. Martin Pollard, CEWC-Cymru's Education Officer, is now qualified to lead two-day Level 1 courses which provide a complete introduction to this academically proven method. For Key Stage 2 teachers we can also provide our own introductory resource, *Thinking Citizens*, which identifies links between P4C and the PSE Framework.

You can register your interest by completing the form on the next page.

OTHER PROJECTS

SKILLS FOR DEMOCRACY

CEWC-Cymru's Kate Wolstenholme has devised a series of lessons to develop the skills and confidence that young people need to take part in democracy. Following successful trials in Bettws High School (Newport), Bryngwyn School (Llanelli) and Mountain Ash Comprehensive School, the *Skills for Democracy* pack will be available to all schools from September. Its six lesson plans cover topics from fair trade to devolution, and are accompanied by self-assessment grids for students. *Skills for Democracy* can be pre-ordered now at £15 (bilingual version) or £10 (English or Welsh only). The poster included in this newsletter provides a sample from the pack.

A complementary pack on running a Model National Assembly Election will be available in the autumn. This will enable schools to run simulation events alongside the real elections in May 2007, and will provide background lessons on the Assembly, manifestos and elections.

We wish to thank our three pilot schools, and the Electoral Commission for its financial support.

INC*lusion*

Kate has also developed a popular series of lessons which develop students' key skills using animation and citizenship themes. Use the form below if you wish to arrange such sessions for your students, or if you would like to receive training in this technique.

OUR WEBSITE

We are planning a revamp for our website, **www.cewc-cymru.org.uk**, to make it more useful for both teachers and students. As well as a completely new design, we are redeveloping *Citizenship Today* (our teachers' resource for PSE and citizenship education) and adding a section for young people. We appreciate all comments on this work, and have produced a consultation questionnaire on it for students and teachers: complete the form below if you would like to receive it.

GET IN TOUCH

If you would like to get involved in any of the activities mentioned in this newsletter, please complete this form and return to the address at the bottom of the page.

Name: ..... School / college: .....

Address: .....

E-mail: .....

I would like more information about:

☐ 2006 Wales Schools Debating Championships
☐ Model United Nations conferences or classroom sessions ☐ Philosophy for Children
☐ Skills for Democracy ☐ Animation/key skills

Please send me the following materials (you will be invoiced later where applicable):

☐ ..... copies of *Passport to the United Nations* ☐ ..... copy/copies of *Skills for Democracy* pack
☐ ..... copy/copies of website questionnaire

TEL (029) 2022 8549 FAX (029) 2064 0333 E-MAIL cewc@wcia.org.uk Reg. charity no. 1048759

CEWC-CYMRU TEMPLE OF PEACE • CATHAYS PARK • CARDIFF • CF10 3AP

Design elfen.co.uk

CEWC CYMRU

CYNGOR ADDYSG MEWN DINASYDDIAETH BYD - CYMRU

CYLCHLYTHYR 06

HAF

Dinasyddiaeth weithredol i Gymru ac i'r byd

MWY NAG ERIOED YN CYMRYD RHAN YN DADL CYMRU 2006

Mae 36 o wledydd – mwy nag erioed o'r blaen – wedi cofrestru ar gyfer Pencampwriaeth Ddadlau Ysgolion y Byd 2006, a gynhelir yng Nghymru ym mis Gorffennaf. Ymhlith y rhain mae tri thîm sydd heb gystadlu o'r blaen: Botswana, Lesotho a Montenegro, sydd newydd ennill ei hannibyniaeth.

Dywedodd Martin Pollard, Swyddog Addysg CEWC-Cymru a Chynullydd yr ornest fawr: "Rydym yn falch dros ben i groesawu dros 300 o ddadleuwyr, hyfforddwyr a beirniaid o bedwar ban byd i Gymru yr haf hwn. Byddant yn mynd i'r afael â phynciau o sylwedd fel ynni niwclear, terfysgaeth a democratiaeth, a bydd miloedd o ddisgyblion ysgol o Gymru yn cael y cyfle i wylio'r dadleuon ac i gymryd rhan." Bydd CEWC-Cymru hefyd yn dosbarthu deunyddiau dysgu am ddadlau yn rhad ac am ddim i bob ysgol a choleg yng Nghymru.

Trefnwyd yr ornest gan ein mam gorff, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru, gyda chefnogaeth gan Ffederasiwn Dadlau Cymru. Bu Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cyngor Sir Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cyngor Dinas Casnewydd, Cyngor Sir Caerfyrddin, BBC Cymru a LexisNexis Butterworths oll yn hael eu nawdd i'r digwyddiad.

Gwelir ein tîm ni o Gymru, a noddir gan yr arbenigwyr teithio Schools Into Europe, yn y llun uchod. O'r chwith i'r dde: Joseph Edwards (Ysgol Gyfun Caerllion), Katharine Halls (Ysgol y Brenin Harri'r VIIIfed, Y Fenni), Ffion Rolph (Ysgol Gyfun Gymraeg Plas-mawr, Caerdydd), Bethan Greaves (Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt), Geraint Denison (Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd, Caerdydd).

Os hoffech fod yn y gynulleidfa yn yr Ornest Derfynol Fawreddog ar Orffennaf 13eg yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd, e-bostiwch **convenor@wales2006.com**.

Y CAM NESAF: COREA

Banc Julian Hodge

Cynhelir Pencampwriaeth y Byd 2007 yn Seoul, De Corea – a chaiff disgyblion o Gymru y cyfle i fod yno, trwy ymgeisio ym **Mhencampwriaethau Dadlau Ysgolion Cymru 2006**. Dyma'r unig gystadleuaeth ddadlau genedlaethol yng Nghymru ac fe'i noddir gan Fanc Julian Hodge. Cynhelir gornestau rhanbarthol ym mis Hydref, gyda'r Ornest Derfynol ar Dachwedd 24ain yn y Deml Heddwch, Caerdydd.

Anfonir manylion llawn am y Pencampwriaethau at bob ysgol: i wneud yn siŵr y byddwch chithau'n derbyn copi personol, llenwch y ffurflen dros y ddalen.

www.cewc-cymru.org.uk

HWYL FAWR SHEILA – BYDD HIRAETH AR EICH ÔL

Bydd llawer sy'n gweithio yn yr un maes â ni wedi cyfarfod â Sheila Davies neu wedi siarad â hi dros y blynyddoedd. Dechreuodd Sheila ar ei gwaith fel Cynorthwyydd Ysgrifenyddol i CEWC-Cymru a Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru ym 1991. Hi yn aml iawn oedd y cyswllt cyntaf i rai oedd yn galw yn y Deml Heddwch neu'n ffonio yno. Yn gyhoeddus a thu ôl i'r llenni, rhoddodd gefnogaeth anhepgor i gynadleddau a chystadleaethau niferus CEWC-Cymru, bu'n rheoli ein system aelodaeth ac yn sicrhau bod ysgolion a cholegau yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf.

Roedd Sheila hefyd yn aelod o staff fawr iawn ei pharch, un a oedd yn cyfuno'r gallu i drefnu gyda wyneb cyfeillgar a ffordd ddiffwdan. Byddwn yn gweld ei heisiau yn fawr iawn, a dymunwn yn dda iddi i'r dyfodol.

Jihane Habachi, o Beaucourt yn Franche-Comté, Ffrainc, fydd yn llenwi swydd Sheila. Bu Jihane yn gweithio gyda ni yn y gorffennol fel gwirfoddolwraig ar raglen leoli Leonardo yr Undeb Ewropeaidd. Mae modd cysylltu â hi trwy e-bostio **jihanehabachi@wcia.org.uk**.

PASBORT ARBENNIG IAWN

Os hoffech i'ch disgyblion ddysgu mwy am waith y Cenhedloedd Unedig, mae cymorth wrth law.

Mae chwaer gorff CEWC-Cymru, Cymdeithas y Cenhedloedd Unedig Cymru (CCUC), wedi cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o *Pasbort i'r Cenhedloedd Unedig,* llyfryn poced dwyieithog sy'n egluro sawl agwedd ar waith y CU. Pris y Pasbort, sy'n addas i'w ddefnyddio gan ddisgyblion 14 oed a hŷn yn ogystal ag athrawon, yw £1 fel arfer. Ond mae gennym ddwy gyfradd ar ein cynnig arbennig i athrawon: 30 copi am £20, neu 100 copi am £50.

I ddisgyblion sydd am gael profiad ymarferol o'r ffordd y mae'r CU yn gweithio, mae CEWC-Cymru yn trefnu nifer o **gynadleddau Model y Cenhedloedd Unedig** bob blwyddyn. Yn y rhain bydd rhwng 50 a 100 o ddisgyblion yn cynrychioli amryw o'r gwledydd sy'n aelodau o'r CU, gan drafod pynciau allweddol megis tlodi byd a'r frwydr yn erbyn HIV/AIDS. Cynhelir y ddau ddigwyddiad nesaf ar Dachwedd 3ydd (Neuadd y Sir, Caerfyrddin) a Thachwedd 9fed (Neuadd y Sir, Abertawe). Gallwn hefyd drefnu digwyddiadau model y CU ar raddfa lai ar gyfer yr ysgolion hynny sy'n aelodau o CEWC-Cymru, gan ddefnyddio'r adnodd CCUC, *U What?!*.

Llenwch y ffurflen ar y dudalen nesaf os ydych am fanteisio ar y cynigion hyn.

MEDDWL YN DDWYS – HYFFORDDIANT NEWYDD

A sgiliau meddwl beirniadol yn dod fater o bryder cynyddol i athrawon, mae CEWC-Cymru yn falch o gynnig cyrsiau hyfforddi achredig ar **Athroniaeth i Blant (P4C)**. Mae'r dull P4C yn annog disgyblion i fynd i'r afael â thrafodaethau agored am faterion cymdeithasol a moesegol a phynciau eraill athronyddol eu naws. Mae Martin Pollard, Swyddog Addysg CEWC-Cymru, bellach wedi ymgymhwyso i arwain cyrsiau deuddydd Lefel 1 sy'n cynnig cyflwyniad llawn i'r dull academaidd brofedig hwn. Ar gyfer athrawon Cyfnod Allweddol 2 gallwn hefyd ddarparu ein hadnodd rhagarweiniol ein hunain, *Dinasyddion sy'n Meddwl*, sy'n nodi cysylltiadau rhwng P4C a'r Fframwaith ABCh.

Mae modd i chi nodi eich diddordeb trwy lenwi'r ffurflen ar y dudalen nesaf.

PROSIECTAU ERAILL

SGILIAU AR GYFER DEMOCRATIAETH

Mae Kate Wolstenholme o CEWC-Cymru wedi dyfeisio cyfres o wersi i ddatblygu'r medrau a'r hyder sydd eu hangen ar bobl ifainc er mwyn cymryd rhan mewn democratiaeth. Yn sgîl gwaith treialu llwyddiannus yn Ysgol Uwchradd y Betws (Casnewydd), Ysgol Bryn-gwyn (Llanelli) ac Ysgol Gyfun Aberpennar, bydd y pecyn *Sgiliau ar gyfer Democratiaeth* ar gael i bob ysgol o fis Medi ymlaen. Mae'r chwe chynllun gwersi yn ymdrin â phynciau o fasnach deg ar y naill law i ddatganoli ar y llall, ac yn cynnwys gridiau hunan-asesu ar gyfer y disgyblion. Gallwch archebu *Sgiliau ar gyfer Democratiaeth* o flaen llaw yn awr am £15 (fersiwn ddwyieithog) neu £10 (Saesneg neu Gymraeg yn unig). Mae'r poster a ddaw gyda'r cylchlythyr hwn yn cynnig enghraifft o'r pecyn.

Bydd pecyn i gydweddu ar gynnal Etholiad Model y Cynulliad Cenedlaethol ar gael yn yr hydref. Bydd hyn yn galluogi ysgolion i gynnal digwyddiadau efelychu yn ystod yr etholiadau go iawn ym mis Mai 2007, ac yn darparu gwersi cefndir am y Cynulliad, maniffestos ac etholiadau.

Carem ddiolch i'r tair ysgol beilot, ac i'r Comisiwn Etholiadol am ei nawdd ariannol.

INC*lusion*

Mae Kate hefyd wedi datblygu cyfres boblogaidd o wersi sy'n datblygu sgiliau allweddol disgyblion trwy ddefnyddio themâu animeiddio a dinasyddiaeth. Defnyddiwch y ffurflen isod os ydych am drefnu sesiynau o'r fath ar gyfer eich disgyblion, neu os carech dderbyn hyfforddiant yn y dechneg hon.

EIN GWEFAN

Mae cynlluniau ar y gweill i ailwampio ein gwefan, **www.cewc-cymru.org.uk**, gyda'r nod o'i gwneud yn adnodd mwy defnyddiol ar gyfer athrawon a disgyblion. Yn ogystal â chynllun gwbl newydd, rydym wrthi'n ailddatblygu *Dinasyddiaeth Heddiw* (ein hadnodd ar gyfer athrawon sy'n sôn am addysg ym maes ABCh a dinasyddiaeth) ac yn ychwanegu adran ar gyfer pobl ifainc. Rydym yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau ar y gwaith hwn, ac rydym wedi cynhyrchu holiadur pwrpasol i gywain barn disgyblion ac athrawon: llenwch y ffurflen isod os ydych am dderbyn hwn.

CYSYLLTWCH Â NI

Os hoffech gymryd rhan yn unrhyw un o'r gweithgareddau y mae'r cylchlythyr hwn yn sôn amdanynt, llenwch y ffurflen hon os gwelwch yn dda a'i dychwelyd i'r cyfeiriad sydd ar waelod y dudalen.

Enw: ..... Ysgol / coleg: .....

Cyfeiriad: .....

E-bost: .....

Carwn dderbyn rhagor o wybodaeth am:

☐ Pencampwriaethau Dadlau Ysgolion Cymru 2006
☐ Cynadleddau Model y Cenhedloedd Unedig neu sesiynau yn yr ystafell ddosbarth
☐ Athroniaeth i Blant ☐ Sgiliau ar gyfer Democratiaeth ☐ Sgiliau allweddol/animeiddio

Anfonwch y deunyddiau a ganlyn ataf os gwelwch yn dda
(anfonir anfoneb atoch yn nes ymlaen lle y bo'n briodol):

☐ ..... copi o *Pasbort i'r Cenhedloedd Unedig* ☐ ..... copi o'r pecyn *Sgiliau ar gyfer Democratiaeth*
☐ ..... copi o'r holiadur ynglŷn â'r wefan

FFÔN (029) 2022 8549 FFACS (029) 2064 0333 E-BOST cewc@wcia.org.uk Elusen gof. rhif 1048759

CEWC-CYMRU Y DEML HEDDWCH • PARC CATHAYS • CAERDYDD • CF10 3AP

Dyluniwyd gan elfen.co.uk